



tud 3	tud 7	tud 9	tud 12
Pobl a Phethe	Diolch	CFfl	Pêl-droed

ERGYPD DROM I'R GYMUNED



Cynrychiolwyr Cymdeithas Pêl-droed Cymru, Kevin Moon ac Eleri Williams, ar Gae'r Odyn Galch, gyda Cadeirydd y Gymdeithas, Evan Rowlands, a Ceri Jones.

Mae cymuned Tal-y-bont wedi derbyn ergyd drom i un o weithgareddau mwyaf poblogaidd y dalgylch. Ar hyn o bryd mae dau dîm oedolion Clwb Pêl-droed Tal-y-bont yn chwarae eu gemau ar Gae'r Odyn Galch ac mae dros gant o blant o bob oedran y cylch yn manteisio ar y cae i ymarfer a chwarae pêl-droed, dan ofal Clwb Pêl-droed Ieuenctid Tal-y-bont. Mae'r cae yn cael ei reoli a'i gynnal gan Gymdeithas Maes Chwarae Cae'r Odyn Galch a ffurfiwyd yn 2010, sy'n talu rhent blynedd sylweddol i'r perchennog am y fraint.

Ond bellach mae perchennog y cae, Mr Ioan Beechey, Llwyd Llwyd, wedi dweud ar lafar wrth y Gymdeithas ei fod am ddod â'r cytundeb i ben ddiwedd Awst eleni, gan adael yr holl dimau lleol heb gae ar gyfer y tymor nesaf ac wedi hynny.

Yn ôl cadeirydd y Gymdeithas, Evan Rowlands: "Mae hon yn ergyd drom i chwaraeon y cylch o safbwynt y manteision cymdeithasol yn ogystal ag iechyd a lles ein plant a phobl ifanc. Mae'r Gymdeithas wedi gweithio'n galed i gynnal y cae dros sawl blwyddyn a byddai colli'r cyfleusterau ar hyn o bryd yn creu ansicrwydd. Ofnaf y bydd y clwb hyn a'r clwb ieuenctid yn dod i ben."

Yn ôl llefarydd ar ran y Clwb Ieuenctid: "Bydd yr holl offer, y goliau ac yn y blaen, a brynwyd drwy ymdrechion lleol yn mynd yn wastraff a bydd ein holl gweithgareddau, gan gynnwys yr Wyl Bel-droed lwyddiannus a gynhelir yn yr haf, yn dod i ben. Mae'r sefyllfa yn drychinebus."

Mae'n debyg fod y Gymdeithas wedi cynnig prynu'r cae oddi wrth y perchennog presennol dro yn ôl ac, ar un adeg, mynegodd ei ddiddordeb mewn gwerthu'r cae i'r Gymdeithas ond newidiodd ei feddwl. Ceisiwyd trefnu cyfarfod rhwng y perchennog a chynrychiolwyr Cymdeithas Pêl-droed Cymru a fu'n ymweld â'r cae ym mis Tachwedd. Anfonwyd llythyr at y perchennog gan yr FAW ond ni chafwyd ateb.

Bellach mae'r Gymdeithas yn ceisio ffurfio consortiwm lleol i lunio cynnig penodol i brynu'r cae ac unrhyw eiddo cyfagos, petai'r tir yn dod ar y farchnad.

Bydd *Papur Pawb* yn cadw golwg ar y sefyllfa dros y misoedd nesaf gan obeithio y gellid dod i ddatrysiaid a fydd yn sicrhau dyfodol llewyrchus i chwaraeon yn y dalgylch.

Croeso Sali Mali



Mae'r croeso yng Nghylch Meithrin Tal-y-bont yn gynhesach fyth ers dechrau'r flwyddyn, gyda wyneb siriol Sali Mali'n croesawu'r plant (yn ogystal â'r staff a'r rhieni) bob bore. Mae'r Cylch yn eithriadol o ddiolchgar i Ruth Jên am ymgymryd â'r gwaith – mi fydd yn siwr o aros yng nghof cenedlaethau o blant yr ardal.

Cafodd plant y Cylch Meithrin gyfle yn ystod mis Ionawr i fynd draw i'r ysgol gynradd i fwynhau perfformiad gan Aled Ailgylchu, arwr ailgylchu Ceredigion. Cafwyd llawer o fwynhad yn canu caneuon hwyliog gyda negeseuon pwysig.

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Profesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard

10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com Cysyllter â golygyddion y mis	(01970) 832560
Tynnu lluniau:		
Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont Karren Roberts	832592 832438 07800 806578
Maes-y-deri:	Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont	832498
Parsel Henllys:	Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch	832566
Bont-goch:	Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin	832230
Tre Taliesin:	Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl	(01654) 781260
Tre'r-ddôl:	Michelle James, 4 Maes Clettwr, Tre'r-ddôl	832028
Eglwysfach/Ffwrnais:	Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais	(01654) 781324
Rhwydweithiau cymdeithasol:	Ceri Morgan	
Cadeirydd:	CYMDEITHAS PAPUR PAWB Gerwyn Jones, Dôl Pistyll, Tal-y-bont	832203
Is-gadeirydd:	Catrin M Davies, Simne Wen, Tal-y-bont	832697
Ysgrifennydd:	Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont	832344
Trysorydd:	Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
Tanygrifiadau:	Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	832448
Hysbysebion:	Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont	832076
Plygu'r Papur:	Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins	
Dosbarthwyr:	Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon, Bob Williams	

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

Llythrau

Maesgwyn
Tal-y-bont

GOHEBYDD NEWYDD

Ysgrifennaf i ddiolch o waelod calon i'r criw a drefnodd y gwasanaeth ardderchog ym Methel fore Sul, Ionawr 15fed wrth i fy nghyfnod yn yr Ysgol Sul ddod i ben.

Diolch i bob un a gymerodd ran, am y cyfarchion o bell ac agos ac am yr anrhegion arbennig – mawr yw fy ngwerthfawrogiad o'r cyfan oll.

Diolch am gael bod yn aelod o'r Ysgol Sul ac am y gwmniaeth a'r cyd-weithio hapus iawn dros y 38 mlynedd diwethaf.

Yn ddfifiant
Falyri Jenkins

Mae Karren Roberts wedi gwirfoddoli i weithredu fel gohebydd *Papur Pawb* ym Maes-y-deri. Gallwch gysylltu â Karren ar 07800806578. Diolch i Karren a hefyd i'w rhagflaenydd Eirlys Jones a fu'n ffyddlon iawn yn cefnogi'r papur dros y blyneddodedd.

Gwasanaeth Cynnal a Chadw Gerddi
MYNACH
Garden Maintenance

Torri Porfa, Sietynau, Tirlunio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol

Ffôn: 07792457816 / 01974 261758

e-bost:
mynachhandyman@yahoo.com

Gwahoddir holl ddarllenwyr Papur Pawb i lansiad Gwefan Newydd PAPUR PAWB

yn Ysgol Gymunedol Tal-y-bont
am 3 o'r gloch, 6 Mawrth 2017
Gwesteion arbennig – te prynhawn

Dyddiadur

Chwefror

- Bethel 5 Gweinidog**
Nasareth 5 Uno ym Methel
Rehoboth 10 Bugail (C)
- Cymdeithas y Chwiorydd**
Rehoboth 2 'Lluniau a hanes ei thaith i Canada' (Marian Beech-Hughes)
- Wildfowler Bingo**
- Bethel 10 Gwasanaeth Teulu**
Nasareth 10 Uno ym Methel
Rehoboth 10 J.E. Wynne Davies
Eglwys Sant Pedr, Elerch
2.30 Hwyrdd Weddi
- Merched y Wawr Tal-y-bont**
a'r Cylch 'Paent neu bapur wal, a pha liw?' (Gwerfyl Owen)
- Sioe Arddwriaethol**
Llangynfelyn Cyfarfod Blynnyddol 7 Llan-fach
- Hwyl Ddewi** yn Neuadd Goffa Tal-y-bont. Cawl am 6.30. Adloniant 7.30 yng nghwmni Côr Dyffryn Dyfi
- Bethel 10 Gweinidog (C)**
Nasareth 10 Uno ym Methel
Rehoboth 10 Ifan Mason Davies
- Cymdeithas Treftadaeth**
Llangynfelyn 7.30 Y wisg Gymreig (Michael Freeman)

Mawrth

- Bethel 2** Uno yn Nasareth
Nasareth 2 Gweinidog (C)
Rehoboth 10 Huw Roderick
Eglwys Sant Pedr, Elerch
2.30 Cymun Bendigaid
- Cymdeithas Sioe Tal-y-bont**
Cyfarfod Blynnyddol
8.00 Neuadd Goffa Tal-y-bont
- C FF I Tal-y-bont** Cyngerdd
Hanner Awr o Adloniant
Neuadd Goffa 7.30
- Sefydliad y Merched Taliesin**
Dathlu Gŵyl Dewi
- Bethel 2** Gweinidog
Nasareth 2 Uno ym Methel
Rehoboth 10 Bugail (C)

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu eich sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech ddanfôn y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com (01970 832478) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

**NEUADD GOFFA
TAL-Y-BONT
NOSON HWYL DDEWI
2017**
Yng nghwmni
Côr Dyffryn Dyfi
(Arweinydd Arfon Williams)
Nos Sadwrn 25 Chwefror
Cawl am 6.30
Adloniant am 7.30
Oedolion £8.00 Plant Ysgol
£4.00
Tocynnau ar gael gan
aelodau'r Pwyllgor

CYMDEITHAS SIOE TAL-Y-BONT

Cyfarfod Blynnyddol
Nos Lun Mawrth 6 2017
8 o'r gloch yr hwyr
Neuadd Goffa Tal-y-bont
Croeso cynnes i bawb

GOLYGYDDION

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Eirian a Geraint, gydag Iolo yn dylunio. Golygyddion mis Mawrth fydd Helen (helen.iwan@btinternet.com), Rhian (rhian.nelmes@btinternet.com) a Ceri (stiwid@ceri-talybont.com). Y dyddiad cau ar gyfer derbyn newyddion fydd dydd Gwener 3 Mawrth 2017, a bydd y papur ar werth ar 10 Mawrth.

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Bistro
Gannets

Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Dymuniadau gorau

Pob dymuniad da i Delyth Davies, Glanrhyd Bontgoch yn ei chartref newydd yn ardal Llanrwst.

Dyweddïo

Llongyfarchiadau i Lucy Thomas, Maesglas Tal-y-bont ar ei dyweddïad â Mark Painter. Mae Lucy yn gweithio yn adran grantiau'r Cyngor Llyfrau ac mae Mark yn athro ysgol. Tan yn ddiweddar bu Mark yn dysgu yn ysgol gynradd Llanandras Powys ac erbyn mae'n gwneud gwaith cyflenwi ac yn dysgu Cymraeg.

Dymuniadau gorau

Croeso adref i Bill Gardner, Pandy Tal-y-bont wedi cyfnod yn ysbyty Bronglais a dymuniadau gorau hefyd i'w wraig Barbara sydd gyda'i merch yn ardal Aylesbury Swydd Buckingham.

Croeso

Croeso i Gaynor Jones sydd wedi symud i fyw i Arosfa Tal-y-bont. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.

Ysbyty

Blin gennym glywed fod Marianne Griffiths Adam Street Tal-y-bont bellach yn ysbyty Tregaron. Danfonwn ein dymuniadau gorau.

Wyres Fach

Llongyfarchiadau i Mr. Roberts, 11 Maesyderi ar enedigaeth ei wyres fach newydd, Lottie Louise Doris, sydd yn byw yn Llanrhystud.

Brysiwch wella

Nid yw Gerald Roberts, Maesyderi wedi bod yn dda ei iechyd ers tro byd. Rydyn ni'n anfon ein dymuniadau gorau atoch Gerald. Gwellhad buan hefyd i Evan Jenkins Pengwern Tal-y-bont sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Treforus ac i David Elwyn Griffiths Nantddu Bontgoch sydd hefyd wedi cael triniaeth. Yn yr un modd gwellhad i Gerwyn Jones Dôl Pistyll.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Ann Humphreys, Llysteg, Tre Taliesin ar enedigaeth ei gorwyr Siôn Wyn ar 1 Chwefror,

Pobl a Phethe



Y LADIS AR Y BAG

Eleni bydd Merched y Wawr yn dathlu'r aur – aeth hanner can mlynedd heibio ers sefydlu'r mudiad. Fe fydd yna ddathlu ar hyd y flwyddyn ond fel cam cyntaf fydd pob aelod o Ferched y Wawr yn derbyn bag am ddim fel gwerthfawrogiad o'i haelodaeth. Ruth Jên gynlluniodd y bag ac roedd yn falch i gael y comisiwn gan bod llawer o'r aelodau yn gwsmeriaid selog iddi ac yn amlwg yn hoff iawn o'r 'ladis Cymreig'. Yn y llun mae Ruth yn dal cynllun o'r bag ac yn dangos un ohonynt i Enid Gruffudd aelod o'r gangen leol.

yn fab i'w hŵyr David a'i bartner Kelly.

Penblwydd arbennig

Pob dymuniad da i Annie Smith Anwylyfa ac i Stephen Evans Cae Llew Du ar ddathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar.

Camp Richard

Llongyfarchiadau i Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch, ar ennill y wobr gyntaf mewn cystadleuaeth a drefnwyd ar y cyd rhwng Cymdeithas Hanes Amaethyddiaeth Ceredigion a Chymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. Cyflwynodd Richard draethawd yn cofnodi *Enwau*

diflanedig plwyfa chymuned Bont-goch (Elerch). Mae Richard yn gobeithio cyhoeddi'r traethawd ar ffurf llyfr, cyhoeddiad a fydd o ddiddordeb mawr i'r sawl sydd â diddordeb yn hanes yr ardal.

Ar y teledu

Cyfres ddiffr iawn ar S4C yw 'Arfordir Cymru: bae Ceredigion' a gyflwynir gan Bedwyr Rees. Braff oedd gweld Illtud Griffiths, Eglwysfach, yn sôn am bysgota ar yr Afon Ddyfi a Rowland Davies, Dolclettwr, yn trafod enwau caeau ar ei fferm yn y gyfres hon.

Penblwydd arbennig

Llongyfarchiadau i Carwyn Evans, Maes-y-deri, a fu'n dathlu penblwydd arbennig iawn yn ddiweddar. Hefyd i Angela Jones Tre'r-ddôl a Siân James Sŵn-y-Nant a ddathlodd benblwydd arbennig yn ddiweddar y naill yn Amsterdam a'r llall yn Slofacia.

Cymdeithas y Chwiorydd

Cafwyd prynhawn difyr yng nghyfarfod Cymdeithas y Chwiorydd yn festri Rehoboth, Taliesin ar 10 Ionawr pan groesawyd Phil Davies, Tal-y-bont, atom. Teitl ei sgwrs oedd 'Hwn a'r Llall' a chafwyd ganddo hanesion diddorol a llawn hiwmor am aelodau o'i deulu a'r gymdogaeth glos a fu'n bodoli yn ardal Llandysul. Ac yntau'n fardd toreithiog, adroddodd Phil nifer o'i gerddi i gloi'r cyfarfod. Paratowyd y te ar y diwedd gan Non Griffiths a Caryl Briddon.

Yn Seland Newydd

Mae Marion a Dilwyn Tynant wedi teithio i Seland Newydd yn ddiweddar. Mae Dilwyn yn beirniadu cystadleuaeth cneifio â pheiriant ym Mhencampwriaeth Cneifio'r Byd a gynhelir yn Seland Newydd eleni rhwng Chwefror 8-11. Mae yntau a Marion am fanteisio ar y cyfle i deithio'r wlad hyfryd honno gan dreulio 5 wythnos yno i gyd. Gobeithiwn dderbyn adroddiad am eu hynt a helynt yn y man.

Ymuno â'r awyrlu



Wedi saith mlynedd o wasanaeth fel swyddog gwarant cadlanc, mae Siôn Hopkins, Dyffryn, Tal-y-bont, wedi ymuno â'r Awyrlu. Ar hyn o bryd mae'n derbyn hyfforddiant am ddeng wythnos yn RAF Halton, swydd Buckingham. Pob lwc iddo yn ei yrfa newydd.

Ysgol Tal-y-bont

CWRICWLWM CYMREIG



I gyd-fynd gyda thema'r tymor yma, aeth plant y Cyfnod Sylfaen ar wibdaith arbennig i Gastell Aberteifi. Mae'r castell wedi ei adnewyddu'n ddiweddar ac roedd yn le da i fynd i ddysgu am rai o dywysogion Cymru, ac yn enwedig Yr Arglwydd Rhys, sylfaenydd yr Eisteddfod Genedlaethol. Fe wnaeth y plant ymateb yn wych yn ystod yr ymweliad a hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr i'r staff am y croeso.



SANTES DWYNWEN



Bl 1 a 2 yn dathlu Santes Dwynwen. Cafwyd cyfnod prysur iawn i ddathlu diwrnod Santes Dwynwen eleni eto. Yn ogystal â chynnal gweithgareddau cyffrous yn y dosbarthiadau cynhaliwyd gweithgareddau creu cardiau yng Nghlwb yr Urdd hefyd.

YSGOL RYNGWLADOL

Cafodd plant Blwyddyn 1 a 2 lawer o hwyl yn dathlu Blwyddyn Newydd China ar ddiwedd y mis. Trefnwyd llawer o weithgareddau diddorol ac amrywiol ar y thema ceiliog ac roedd y plant wrth eu boddau'n creu'r gwaith celf.

YSGOL ECO



Mae hi wastad yn bleser i groesawu ymwelwyr i Ysgol Tal-y-bont ac roedd tipyn o gynnwrf ymysg plant y Cyfnod Sylfaen a'r Cylch Meithrin wrth i ni groesawu hen ffrind, sef Aled Ailgylchu. Cawsom ni fore hyfryd yn ei gwmni wrth iddo ein hatgoffa ni i gyd o bwysigrwydd ail-gylchu nwyddau a pheidio â bod yn wastraffus.

PANTO

Llongyfarchiadau mawr i Miriam a Celsea am gael eu dewis i gymryd rhan yn y panto blynyddol yng Nghanolfan y Celfyddydau eleni ac am eu perfformiadau graenus.

GALA NOFIO

Mae mis Ionawr wastad yn brysur yn y pwll nofio. Mae Cylch Aberystwyth yn cynnal sawl gala nofio yn ystod y mis a gwelwyd llawer o blant Ysgol Tal-y-bont yn cystadlu'n frwd unwaith eto eleni. Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n cystadlu ac yn enwedig i Miri, Blwyddyn 6 a Finley, Blwyddyn 3 a gyrhaeddodd y gala derfynol. Da iawn chi gyd.

YSGOL IACH

Roedd hi'n hyfryd i weld cymaint o ddiddordeb yng nghystadleuaeth Cogurdd yr Urdd eleni. Y gamp eleni oedd paratoi tabbouleh blodfresych! Ar ôl cystadlu brwd, yr enillydd eleni oedd Grace o Flwyddyn 6. Bydd Grace nawr yn cynrychioli'r ysgol yn y rownd nesaf – pob lwc i ti. Hoffwn ddiolch i Mrs Myfanwy James am y dasg anodd o feirniadu eleni eto.



Grace Cogurdd

GWERSYLL YR URDD, LLANGRANNOG



Yn ystod wythnos cynta'r tymor aeth criw o Flynyddoedd 3 a 4 i Wersyll yr Urdd Llangrannog. Roedd yn ddeuddydd prysur a chyffrous iawn ac fe lwyddon ni wneud llawer iawn o weithgareddau anturus er gwaethaf y tywydd gwyntog. Roedd y plant wrth eu boddau'n marchogaeth, yn dringo'r rhaffau uchel a'r wal ddringo, yn amcangyfrif oed coed ac yn coginio malws melys wrth y tân, yn gwibgertio ac yn gwneud "back flips" ar y trampolins ac yn ymarfer sgiliau syrcad yn y gampfa. Er gwaetha'r gwynt a'r glaw roedd hi'n braf cael y cyfle i gymryd rhan yn yr holl weithgareddau ac i gael bod oddi cartref am noson. Roedd y bwyd yn flasus fel arfer ac roedd digon o ddewis i blesio pawb! Cyn mynd i'r gwely aeth pawb i'r neuadd i gael disgo ond roedd criw Tal-y-bont yn awyddus i fynd yn ôl i'w lloftydd i gael losin! Diolch yn fawr iawn i staff Urdd Ceredigion a Gwersyll Llangrannog am y croeso cynnes.



Criw Blinedig Llangrannog

Parch F. M. Jones, Abertawe



Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Deric Maesmawr, un o blant hynaf, anwylaf a direidus y pentref, yn naw deg pedwar oed. Yr oedd yn un o naw o blant y diweddar Barchedig Fred Jones B.A. B.D. a Mrs Fred Jones, a fu yn weinidog yn eglwys Bethel Talybont a Soar Pensarn o 1927- 1948. Bu Deric yn weinidog ar

Penygroes ac Antioch, Crymch, ac Ebeneser Newydd, Abertawe.

Bu'r gwasanaeth o ddiolch am fywyd y Parchedig F. M. Jones Dydd Llun Ionawr 30ain yn Ebeneser Newydd. Roedd y dyrfa fawr a ddaeth i'w angladd yn brawf mawr o'r parch tuag ato, fel heddychwyr, ac yn was mor ffyddlon i Iesu Grist ar hyd ei oes. Cydymdeimlwn yn fawr a Miranda, ei briod, a'r teulu oll, gan gynnwys Nest o Lanbadarn, yr unig un sydd a chysylltiad â Thalybont bellach. Coffa da amdano.

Gwilym Jenkins

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Storfa Cartref a Busnes

Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion

Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi

Bocsas a bubblewrap ar lein

www.boxshopsupplies.co.uk

Ffôn: 01654 703692

www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

MID WALES REMOVALS

www.midwalesremovals.co.uk

Sesiynau 'Stori, Dawns a Chân' gan Tic Toc a Cered - Chwefror/ Mawrth 2017

Dewch i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi trwy ymuno gyda chyfres o sesiynau hwyl a sbri i blant 0-4 mlwydd oed ym Mhenparcau.

Bydd y sesiynau Tic Toc yma am ddim, ar gyfer plant bach gyda'u rhieni neu gofalwyr. Bu Theatr Felinfach yn cynnal sesiynau Tic Toc yn y theatr ers pum mlynedd – dyma'ch cyfle chi i ymuno â'r hwyl a sbri gyda'ch plentyn. Bydd Tic Toc yn teilwra'r sesiynau ar gyfer y plant sydd yna, gyda straeon, dawnsio a chanu, a gemau. "Mae trosglwyddo'r iaith i'r genhedlaeth nesaf yn bwysig iawn i dyfodol y Gymraeg," dywedodd Owain Llŷr, Uwch Swyddog Datblygu Cered.

Mae'r sesiynau Tic Toc yn ffordd o gyflwyno'r iaith mewn awyrgylch hwylus, drwy chwarae a chymdeithasu. Mae'n gyfle hefyd i rieni a gofalwyr gyfarfod pobl newydd, a chael paned a chlonc.

Bydd y sesiynau trwy gyfrwng y Gymraeg, ond mae croeso i bawb, yn enwedig pobl sydd heb gael profiad o'r iaith hyd yma. Does ddim angen gallu siarad Cymraeg i gymryd rhan. Mae'r Sesiynau Tic Toc yn gyfle i blant a'u rhieni neu gwarthodwyr i gyfarfod er mwyn cael profiad hwylus yn y Gymraeg, cyn i'r plant gychwyn yn y system addysg ffurfiol.

Bydd croeso i unrhyw blant o 0-4 mlwydd oed, o ddalgylch eang, nid dim ond y trefi lle mae'r sesiynau yn digwydd. Dewch draw am dro, am awr o hwyl gyda'ch un bach chi.

Cered yw Menter Iaith Ceredigion, yn hyrwyddo a chefnogi'r iaith yn ein cymunedau. Theatr Felinfach sy'n gweithredu'r sesiynau Tic Toc, mewn cydweithrediad gyda Cered. Bydd 4 sesiwn yng Nghanolfan Addysg Gymunedol, Campws Integredig Llwyn yr Eos, Penparcau ar Chwefror 27ain, Mawrth 6ed, 13eg a'r 20fed. I i 2yp.

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Ar nos Lun Ionawr 16 croesawyd Beryl Vaughan Llanerfyl atom. Cafwyd noson ddifyr iawn yn ei chwmmi wrth iddi rannu ei phrofiadau o gerdded llwybr arfordir Cymru – her bersonol yn ystod ei chyfnod fel Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Maldwyn a'r gororau. Llwyddodd i godi swm sylweddol iawn i goffrau'r eisteddfod wrth gwblhau y gamp a bu un neu ddwy o aelodau'r gangen yn cadw cwmni iddi ar ambell ddarn o'r daith. Edrychwn ymlaen at glywed mwy o hanes y daith pan gyhoeddir llyfr am y gamp yn y dyfodol agos.

Bu Beryl yn sôn hefyd am ei theithiau ymhell tu hwnt i ffiniau Cymru ar ran Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang. Cyflwynodd ei phrofiadau mewn ffordd unigryw trwy arddangos dillad a gwisgoedd traddodiadol y gwahanol wledydd. Cawsom ein cipio o Bangladesh i India, Taiwan, Samoa ac amryw o wledydd Affrica trwy gyfrwng y dillad hardd. O wisg i wisg cafwyd hanes ei theithiau yn mynychu Cynhadleddau Merched mewn ambell i wlad, yn annerch torf o filoedd mewn gwlad arall neu mewn priodas a dathliadau eraill. Yn Samoa cafodd ei rhyfeddu pan dangoswyd copi o Feibl Cymraeg Thomas Charles iddi.

Diolchwyd i Beryl gan Carys Briddon am rannu ei phrofiadau mewn ffordd ddifyr a gwreiddiol.

Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn

Croesawyd Iwan Meical Jones, Dolau, i'r cyfarfod ar 31 Ionawr a chafwyd noson ddifyr yn gwrandio arno yn sôn am y ffotograffydd Cymreig, John Thomas (1838-1905). Brodor o Geredigion oedd John Thomas ond treuliodd y rhan fwyaf o'i fywyd yn Lerpwl. Roedd yn arbenigo ar dynnu lluniau o dirlun a chapeli Cymru, yn ogystal â phortreadau o'r werin bobl, pregethwyr ac enwogion. Bu'n teithio'r wlad yn gwerthu'r lluniau mewn gwahanol ffeiriau a dangoswyd nifer o'r lluniau hynny ar y noson.

Cais am gymorth

Prin yw teuluoedd sefydledig y Sir hynny sydd heb ryw fath o gofnod o aelodau oedd yn ymwneud â'r diwydiant llaeth yn Llundain yn ystod y ddeunawfed a'r ugeinfed ganrif.

Yr hanes o gyfnod oes y porthmyn hyd at heddiw oedd testun y ddau lyfr, *Llwybr Llaethog Llundain* a'r *London Milk Trail* a gyhoeddwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Seiliwyd y gwaith ar gyfraniadau'r cyhoedd ac mae'r ddau lyfr wedi tyfu erbyn hyn i fod yn adroddiadau diffiniol.

Serch hynny, mae'n amlwg bod mwy o ddeunydd i'w 'achub' a theimlaf ei fod yn bwysig recordio cymaint ag sy'n bosibl cyn i bethau fynd yn angof. Mae cyhoeddiad newydd – dwyieithog o bosib – ar y gweill er mwyn sicrhau hanes mor gyflawn â phosib fydd yn seiliedig ar adroddiant byw yn hytrach nag ar ystadegau archifol.

Apêl yw hon i unrhyw ddarlennydd sydd â deunydd – boed hwnnw ar bapur, yn llafar neu'n ddarluniadol – ac nad oedd wedi gallu ymateb i geisiadau blaenorol, i gysylltu â mi, Megan Hayes, ar: megan.hayes10@gmail.com neu 01545 570545. Cydnabyddir pob cyfraniad os caiff ei ddefnyddio yn y cyhoeddiad.

Megan Hayes

Y LLEW GWYN

TAL-Y-BONT

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00

(Un cwrs: £7.95 Dau gwsr £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245

garethwhitelion@outlook.com



Glanyrafon

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

HUWLEWISTYRES.COM



Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
 Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan **ALIGNMYCAR.CO.UK**
 Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.
ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

Garej Davmor

- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont
01970 832278 www.davmorgarage.co.uk



Pwy yw bardd gorau'r ardal?

Ar Fai 3ydd eleni cynhelir Eisteddfod Calan Mai Morlan Aberystwyth. Hon fydd pumed pen-blwydd yr eisteddfod newydd anedig, ac i ddathlu hynny bydd hon am y tro cyntaf yn Eisteddfod **Gadeiriol!** "Llanw" yw testun y gystadlaeth gerdd gaeth neu rydd a gwobrwyir y buddugol â chadair fechan o waith Wyn Morgan a £20. Eisteddfod leol wrth gwrs yw'r eisteddfod hon, yn gyfyngedig i ddalgylch Penweddig, ond yn sicr mae yn yr ardal nythed o feirdd a gobaith y pwyllgor trefnu yw y byddant yn ymateb i'r sialens.

Wrth gwrs mae mwy i eisteddfod na chadair! Fe gynigir tlws llenyddiaeth eleni, a hynny hefyd am y tro cyntaf, gan ofyn am hyd at 3,000 o eiriau ar y thema "Atgof."

Ac mae mwy i eisteddfod na llenyddiaeth – yn ôl yr arfer mae

yna ystod o gystadlaethau gwaith cartref, gan gynnwys ffotograffiaeth a chelf, a llu o gystadlaethau llwyfan, o'r difrif i'r digri. A bydd *chopsticks* yn cael lle ar lwyfan steddffod Morlan eleni! Am fanylion llawn codwch gopi o'r rhaglen o Siop Inc neu Siop y Pethe neu ewch i'r wefan www.steddffota.org.

Ebrill 25 yw'r dyddiad cau ar gyfer derbyn gwaith cartref – felly digon o amser i'r awen alw heibio i bentrefi gogledd Ceredigion.



Morlan

Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**CHWILIO·AM·LE·I·GYNNAL·
CYFARFOD·CYNGERDD·
NEU·DDIGWYDDIAD·
ARALL?¶**

Mae gan Morlan neuadd-fawr, dwy-ystafell-bwyllgor-a-bar-coffi cysurus sy'n addas ar gyfer pob math o weithgarwch. Telerau: gostyngol i grwpiau cymunedol, crefyddol ac elusennol.¶

Cysylltwch am wybodaeth bellach: 01970-617996 neu morlan.aber@gmail.com¶

Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2JH¶
01970-617996; morlan.aber@gmail.com; @CanolfanMorlan¶

O'R CYNULLIAD

Am amser i fod yn wleidydd!

Dyw hi ddim yn syndod bod yr ansicrwydd yn parhau wrth i bobl geisio dyfalu beth sy'n mynd i ddigwydd nesaf wedi'r refferendwm ar adael yr UE.

Er yr holl honiadau mai 'Brexit yw Brexit' (neu, yn wir, 'Brecwast'), ni wyddwn eto pa ffurf yn union y bydd hwn yn ei gymryd, neu os fydd, yn y pen draw, yn digwydd o gwbl. Fe wyddwn, wrth gwrs, bod yna risgiau enfawr i ni yng Ngheredigion, boed yn ein prifysgolion, yn ein sector amaethyddol neu yn ein hunaniaethau fel dinasyddion Ewropeaidd.

Petai'n digwydd, mae llawer o agweddau sensitif yn y fantol. Mae sicrhau mynediad at y farchnad sengl yn holl bwysig i economi Ceredigion, rydym ni'n allforio llawer iawn o'n cynnyrch i Ewrop, ond wrth gwrs mae'r cyfnwedd diwylliannol yn enfawr i'n myfyrwyr a'n trigolion.

Ar ôl trafodaethau helaeth yn y Cynulliad, roeddwn yn falch iawn, felly, bod Plaid Cymru wedi creu consensws gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r ffordd orau ymlaen i Gymru yn sgil yr holl ansicrwydd yma. Mae Ceredigion yn lle agored a chroesawgar, ac rwy'n falch iawn bod Llywodraeth Cymru nawr wedi ymrwmo i amddiffyn yr ysbryd hwn.

Er hyn, roeddwn yn siomedig iawn y mis hwn i glywed y bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu pencadlys Awdurdod Cyllid Cymru, yr asiantaeth newydd ar gyfer casglu rhai o drethi Cymru, yn Nhrefforest yn hytrach nag yn Aberystwyth neu'r Gorrlewin. Fe godais botensial Ceredigion fel lleoliad yr Awdurdod Cyllid gyda'r Llywodraeth, felly mae'n siom fawr ei bod wedi penderfynu ar leoliad ychydig o filltiroedd tu fas i Gaerdydd ar gyfer y pencadlys. Fe fydda i'n codi'r mater unwaith eto, er mwyn tanlinellu'r angen am swyddi yn y canolbarth.

Fe gafodd rhai o'r materion mawr yma eu trafod yng Nghystadlaethau Siarad Cyhoeddus Clwb Ffermwyr Ifanc Ceredigion y mis yma. Roeddwn yn falch iawn i feirniadu'r gystadlaethau ac i glywed cymaint o bobl ifanc yn mynegi eu barn ar sawl mater gwahanol o bwys. Mae pob cyfle sy'n dod i gwrdd â phobl ifanc Ceredigion yn f'atgoffa ein bod yn ffodus iawn i gael cymaint o bobl ifanc brwdfrydig a deallus yng Ngheredigion, ac mae'r CFFI yn enwedig yn rhoi sylfaen gref i arweinwyr y dyfodol.

Elin Jones

Wiwerod Drwg Bont-goch

Llynedd cafodd un o drigolion Bont-goch drafferthion gyda wiwer ddrwg oedd wedi llwyddo i ymgartrefu yn y stôf goed yn ystod misoedd yr haf. Wythnos yma clywodd y gohebydd lleol am ddigwyddiad tebyg yn un o dai hanesyddol Bont-goch. Ymddengys fod wiwer lwyd wedi ymgartrefu yn *Rayburn* yn perchenog. Neidiodd allan wrth agor drws y popty !



Côr cyn-ddisgyblion yr Ysgol Sul – stori gyferbyn

DIOLCH



Falyri Jenkins gyda phlant yr Ysgol Sul

Cafwyd gwasanaeth hyfryd ym Methel ar fore Sul y 15fed o Ionawr i nodi ymddeoliad Falyri Jenkins Maesgwyn fel arweinydd yr Ysgol Sul ac i ddiolch iddi am ei chyfraniad clodwiw dros dri deg wyth o flynyddoedd. Roedd llawr y capel yn llawn gyda chynrychiolaeth gref o aelodau a chyn-aelodau'r Ysgol Sul. Talwyd teyrnged i Fal ar ffurf sgets, cwis cerddorol ac eitemau gan blant ac oedolion. Yn ychwanegol at gyfraniadau'r rhai oedd yn bresennol gwelwyd cyfres hir o negeseuon fideo gan gyn-aelodau'r Ysgol Sul, pob un yn sôn am hwyl gwasanaethau'r Nadolig a'r sbri o ddysgu o dan arweiniad Fal. Mynegwyd yr un teimladau mewn cân a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer yr achlysur gan Philip Davies.

Dysgu am yr Arglwydd Iesu,
Am ei ofal drosom ni,
Dysgu am y pethau gorau,
A'r bendithion gawsom ni.

Gwisgo lan fel sêr ddewiniad
Neu fel bugail ambell dro,
Canu'n swynol fel angylion,
Adrodd pennill ar ein co'.

Caru'n teulu caru'n ffrindiau,
Caru'n gwlad a charu'r byd,
Bob dydd Sul yng nghwmni'n gilydd,
Cawsom ddysgu hyn i gyd.

Anti Fal sydd yn ymddeol
Wedi oes o'n dysgu ni,
Ac yn ddiwyll rhown ein diolch,
Am y cyfan rhoddodd hi.

Uchafbwynt y gwasanaeth oedd y talu diolch gan Ann a Gwilym Jenkins, Llety'r Bugail. Roedd sylwadau Gwilym yn nodweddiadol ohono – naturiol, didwyll a phob gair o'r galon. Rhoddodd Ann dusw o flodau i Falyri cyn i'r ddau gyflwyno copi o gywydd a gyfansoddwyd gan y Prifardd Gwenallt Llwyd Ifan wedi'i lythrennu'n neilltuoel o hardd gan Non Jones, Dôl Pistyll.

Afon Leri

Yn yr hengoed yn gringoch,
yn gwau'n araf o Bont Goch,
Leri lon yn haelioni,
a'i llif yn llawn o'i lliw hi.

O'r brynau gorlawn llawn llus
y ddraenen wen, i'r Ynys
Las lle mae'r twyni'n crasu,
rhed ei dŵr i'r dyfnder du.

A daear mêl o dawel
y byd sy'n oedi am sbel,
rhwng porfa las a masarn,
hen goed hir a giatiâu ha'rn.

Lle roedd cae melinau gwlan,
hen dai cul yn Stryd Ceulan
a simneau toeau tal,
sŵn cân sydd yn ein cynnal.

A chân hon sy'n ein llonni
dan y wawr, a'n dyled ni
a lenwa ein calonau
am roi oes down a'i mawrhau.
A'i dail ar wyneb y dŵr
yn hardd fel aur ar ferddwr.

Oes o wên, ei gwasanaeth,
a'i nawdd hael; blynyddoedd aeth
heibio. Heno derfyn haf
ac awel â naws gaeaf.
Hydref, nid yw yn llefain;
y dŵr hardd, ni wêl y drain.

Yn y rhyd yn garedig
oeda hon heb wae na dig.
A thynr ei doethineb
na wŷr nos na sen ar neb.
Tynerwch twyn o eiriau
yw'r ddôl lle mae hi'n rhyddhau
ei hynni ar lan ynys,
yn donnau llawn lliwiau llus.

Nid dyma derfyn yr anrhegu gan y bydd Llio James, un arall o gyn-aelodau'r ysgol Sul yn gwehyddu darn o waith celf i Fal. Diolch i Mair Nutting am drefnu'r gwasanaeth ac i bawb a gymerodd ran.

Ond ble dechreuodd y cyfan? Dyma atgofion Fal o'i dyddiau cynnar o fynychu'r Ysgol Sul ym mro ei mebyd:

Dechreuais yn yr Ysgol Sul yng nghapel Wesleiaidd Gorffwysfa, Sling, ger Bethesda pan oeddwn yn 3 oed. Cynhaliwyd yr Ysgol Sul yn y bore gyda rhyw 20 o blant yn mynychu. Roedd dosbarth o oedolion yn yr Ysgol Sul a doedd wiw i ni gambihafio! Cyn gadael fe fyddem yn adrodd y 10 Gorchymyn a Gweddi'r Arglwydd. Roedden ni'n dilyn maes llafur penodol ac yn cael prawf llafar ac ysgrifenedig yn flynyddol. Yn dilyn hyn, byddai tystysgrif arbennig yn cael ei chyflwyno i ni yn y Gymanfa gyda'r marciau yn cael eu nodi arni! Fedrai ddim cofio cymryd rhan mewn gwasanaethau arbennig yn y capel ond roedd angen dysgu emynau ar gyfer y Gymanfa ac roedd cryn edrych ymlaen i'r te yn dilyn y Gymanfa.

Pob Nadolig fe gaem barti yn y festri. Torrwyd coeden fawr o goedwig Dob, a oedd yn perthyn i ystâd teulu'r Penrhyn (ond ni chredaf i neb gael caniatâd i wneud hyn dros y blynyddoedd!) Doedd dim goleuadau lliwgar i'w rhoi ar y goeden bryd hynny ond fe fydden ni'r plant wedi bod yn creu cadwyni papur ac addurniadau ar ei chyfer wythnosau o flaen llaw. Byddai Siôn Corn yn cyflwyno anrheg i bob plentyn yn y parti (y rhieni fyddai wedi prynu'r anrhegion o flaen llaw) a'r dasg pob Nadolig oedd dyfalu pwy oedd y Siôn Corn – a oedd fel arfer ar fenthg o gapel cyfagos!

Achlysur pwysig arall oedd cyngerdd blynyddol y gwanwyn. Byddai planciau i wneud llwyfan yn cael eu gosod dros y sêt fawr ac roedden ni blant wrth ein boddau yn chwarae cuddio yn y tywyllwch o dano! Byddem yn cwrdd pob nos Wener trwy'r gaeaf yn y 'Band of Hope' o flaen tanllwyth mawr o dân yn y festri (wedi ei gynnu gan Anti Jôs) i ymarfer sol-ffa gyda Mistar Wiliams, Chwael Goch, ac i ddysgu ein rhannau ar gyfer y cyngerdd mawreddog. Byddem yn gwerthu tocynnau o flaen llaw yn y pentrefi cyfagos ac ar y noson fe fyddai'r capel yn llawn dop.

I gloi gweithgareddau'r Ysgol Sul am yr haf fe fyddai trip ac yn ddi-ffael anelwyd trwyn y bws i gyfeiriad Rhyl – i'r 'Marine Lake'.

Yn fy arddegau cefais y fraint o fod yn gyfeilydd ac organydd y cyngherddau a'r gwasanaethau a gynhelid yn y capel yn ogystal â chael fy nosbarth fy hun yn yr Ysgol Sul.

Atgofion melyn o gyfnod tu hwnt o hapus dros gyfnod o 18 mlynedd yn yr Ysgol Sul yng Ngorffwysfa, yn union fel fy atgofion o'm cyfnod yn Ysgol Sul Bethel am y 38 mlynedd diwethaf.

Samuel (Sam) Thompson (1876-1920): *Brexiteer* cynnar o Bont-goch

Gyda'r cyfryngau yn llawn trafodaethau ar Brexit, mae'n amserol cofio gŵr o Bont-goch, a fyddai, yn sicr, wedi bod yn flaenllaw o blaid yr ymgyrch pe bai yn fyw heddiw.

Ganwyd Samuel Thompson yn Efrog Newydd ar 5 Ebrill 1876, yn fab i Samuel Thompson a'i briod Margaret. Roedd y rhieni yn enedigol o Gymru, ac wedi ymfudo i'r Unol Daleithiau tua 1867 ar ddiwedd y Rhyfel Cartref. Bu'r tad farw yn 1877, a phenderfynodd Margaret Thompson ddychwelyd i Gymru gyda'i mab ifanc Sam, a'i ddwy chwaer hŷn, Mary Anne (g. 1867 yn Aberystwyth) a Margaret (g. 1874 yn America) gan ymgartrefu yn Northgate Street, Aberystwyth. Ar 20 Tachwedd 1878, yn Swyddfa'r Cofrestrydd, Aberystwyth ail-briododd Margaret Thompson gydag Ebenezer Ellis, mwynwr a gŵr gweddwr, gyda dau o blant, [John James Ellis (1873-1921) a Griffith Richard Ellis (g. 1874)] a gwnaethant ymgartrefu mewn bwthyn mwynwr ger gwaith Llety Ifan Hen ym Mont-goch, a rentwyd o ystad Traws-goed. Ganed plentyn arall o'r ail briodas, ond ni fu'r tad fyw i weld ei blentyn, a chladdwyd Ebenezer Ellis yn mynwent Eglwys Elerch ar 26 Gorffennaf 1890 yn 49 mlwydd oed. Bedyddiwyd plentyn Ebenezer a Margaret yn Eglwys Elerch ar 2 Ebrill 1891 a'i enwi yn William Lewis Ellis.

Bu Samuel Thompson yn ddisgybl yn Ysgol Elerch hyd at gyrraedd ei 12fed penblwydd. Ceir sawl cyfeiriad ato yn llyfr log yr ysgol fel plentyn direidus iawn a fyddai'n cael ei geryddu'n aml gan ei athrawon. Bu'n absennol hefyd am gyfnodau eithaf hir oherwydd nam difrifol ar ei lygad a oedd yn ei gwneud yn anodd iddo ddarllen a dilyn y gwersi. Ymddengys ei fod yn barod i adael ysgol erbyn diwedd 1888, a chafodd waith yng ngweithfeydd mwyn Cwmsymlog. Byddai'n dechrau am 7.00 y bore a gweithio hyd at 5.30 y prynhawn am swllt y dydd o gyflog, gan gerdded yn ddyddiol, mae'n siŵr, o'i gartref yn Llety Ifan Hen dros y mynydd i Gwmsymlog. Credir iddo weithio yno am ddwy flynedd, cyn cael cyfle i ddechrau prentisiaeth fel dilledydd gyda siop enwog Daniel Thomas yn Aberystwyth. Fe'i nodir yno fel *draper's assistant* yng nghyfrifiad 1891.

Erbyn 1901, fel nifer o gyn-fwynwyr, roedd yn byw ac yn gweithio yn y diwydiant glo yng Nghwm Rhondda, ac fe'i rhestrir fel *boarder* yn 3 Woodland Cottages, Ystradyfodwg yng nghyfrifiad 1901. Bu'n gweithio ym mhwl glo Tylorstown yn y Rhondda Fach ers tua chwe mlynedd, a bu'n ffodus i oroesi trychineb fawr yn y pwll pan laddwyd 57 o'i gydweithwyr ar 27 Ionawr 1896. Arweiniodd y drychineb hon at yr arfer am y tro cyntaf o ddefnyddio caneris mewn pyllau glo i ganfod nwyon peryglus. Pe byddai'r adar yn synhwyro nwyon peryglus, byddent yn stopio canu, ond nid oedd y defnydd ohonynt yn cael ei ystyried yn greulon gan mai ychydig a fyddai'n marw fel canlyniad. Daeth y caneri, mewn gwirionedd, yn ffrind pennaf y glowr, a byddent yn eu gwarchod yn y modd mwyaf gofalus.

Ar ôl ymgartrefu yn y Rhondda, dechreuodd Samuel Thompson ddangos diddordeb yn y byd gwleidyddol, a pharhaodd i weithio dan ddaear tan 1907. Ar ôl gweithio am oriau hir yn y gweithfeydd mwyn am gyflog bach, a chael profiadau erchyll yn y diwydiant glo, mae'n syndod braidd i weld Thompson yn mynegi ei gefnogaeth i wleidyddiaeth yr asgell dde. Ym 1897 ymunodd â Chlwb Ceidwadwyr Tylorstown, gan ddod ymhen amser yn gadeirydd, ac erbyn 1902 etholwyd ef yn gadeirydd Ceidwadwyr y Rhondda, ac yn aelod o bwyllgor rhanbarth De Cymru o'r blaid. Bu'n ymgyrchu dros y Torïaid yn etholiad cyffredinol 1900, a bu'n arbennig o weithgar gyda mudiad y *Tariff Reform League*, a sefydlwyd yn 1903 i warchod Prydain yn erbyn mewnforio annheg, ac i hyrwyddo masnach gyda gwledydd yr Ymerodraeth Brydeinig ar draul yr Unol Daleithiau a'r Almaen. Bu'n annerch nifer fawr iawn o gyfarfodydd

cyhoeddus i ledaenu neges y Gynghrair, ac arweiniodd y sylw a gafodd yn sgil yr ymgyrch honno, a'i effeithiolrwydd fel siaradwr cyhoeddus yn Gymraeg a'r Saesneg, at ei ddewis ym Mehefin

1908 fel darpar ymgeisydd Ceidwadol ar gyfer etholaeth Gorllewin Sir Ddinbych. Roedd eisoes yn gyfarwydd i Geidwadwyr y sir fel is-asiant gweithgar Arthur Sackville Trevor Griffith-Boscawen, ymgeisydd aflwyddiannus y Ceidwadwyr yn is-etholiad Dwyrain Dinbych yn 1906. Yn Etholiad Cyffredinol Ionawr 1910 trechwyd Sam Thompson gan y Rhyddfrydwr Syr John Herbert Roberts (1863-1955), cynrychiolydd y sedd ers 1892, a enillodd eto gyda dros 3,000 o fwyafrif. Roedd Thompson yn un o ddim ond 10 ymgeisydd o'r dosbarth gweithiol a fu'n sefyll dros y Torïaid yn yr etholiad honno.

Yn hwyrach yn y flwyddyn rhannodd Thompson lwyfan gyda Lady Powis a'r Arglwydd Clive yn Cann Office, Llangadfan, wrth hyrwyddo gwaith y *Primrose League*,

mudiad Ceidwadol dylanwadol a phoblogaidd iawn ar y pryd.

Ar 24 Awst 1910, yn Eglwys St. Ioan, Maestell, priododd Samuel Thompson gyda Jane Thomas, merch David & Hannah Thomas, fferm Cefnrihwlas, Penybanc, Llandeilo. (Ymhlith y rhai a roddodd anrheg priodas iddynt o bot marmalade arian oedd fy hen fam-gu, a oedd yn gymydog agos). Bu hanner brawd Samuel, William Lewis Ellis, a'i ddilynnodd fel glowr i Tylorstown, yn was priodas iddo. Er i etholiad cyffredinol arall gael ei chynnal yn Rhagfyr 1910, ni wnaeth Thompson gystadlu ac ail-etholwyd Rhyddfrydwr Gorllewin Dinbych yn ddiwrthwynebiad.

Yn gwbl annisgwyl ar 6 Ebrill 1911, bu farw ei wraig, a oedd yn feichiog ar y pryd, a hynny ddyddiau'n unig ar ôl mynychu angladd ei thad. Fe'i claddwyd ym mynwent Capel Isaac, Eglwys yr Annibynwyr, ger Llandeilo.

Erbyn diwedd Ebrill 1911 ceir Thompson yn byw ym Mhlas Iolyn, Rhuthun, lle nodwyd ei waith fel *political agent*. Rhannai'r tŷ gyda morwyn, merch o Landeilo o'r enw Lizzie Thomas, oedd yn ôl pob tebyg yn chwaer-yng-nghyfraith iddo, a symudodd i'r gogledd i gadw tŷ iddo yn dilyn ei brofedigaeth.

Ail-briododd Sam Thompson yn Ormskirk Swydd Gaerhirfryn (Lancashire) yn 1913 gyda Beatrice Harriet Turpin o Cluny, Birkdale, a ganwyd tri o blant iddynt: Winifred Olive Louise (g. 9 Ebrill 1914), Margaret H. Thompson (g. 1915) a Samuel Arthur Merlin Thompson (1916-1966).

Ar ddechrau 1914 mabwysiadwyd Thompson fel ymgeisydd Ceidwadol Meirionnydd ar gyfer yr etholiad cyffredinol a ddisgwyliwyd yn 1915. Ond gyda dechreuad y Rhyfel Mawr yn Haf 1914 gohiriwyd pob gweithgaredd gwleidyddol, ac ni chynhaliwyd etholiad arall cyn 1918.

Ar ddechrau 1916 adroddwyd fod Thompson wedi cael comisiwn fel is-lefftenant gyda 4ydd Catrawd y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig (Tiriogaethwyr Sir Ddinbych). Fe'i dyrchafwyd yn Gapten cyn diwedd y Rhyfel.

Pan ddaeth etholiad 1918, ail-etholwyd Rhyddfrydwr Meirionnydd yn ddi-wrthwynebiad, ac ni fu Thompson yn ymgeisydd. Mae'n bosibl nad oedd ei iechyd yn ddigon da erbyn hynny i ymladd etholiad arall gan iddo farw yn 44 oed yn y Royal Infirmary, Lerpwl ar 28 Ebrill 1920. Fe'i claddwyd ar 1 Mai ym mynwent newydd Eglwys Llantysilio, Llangollen. Roedd cartref y teulu yn 3, Dolafon Villas, Llangollen. Yn dilyn ei farwolaeth symudodd ei weddw a'i blant i Swydd Gaerhirfryn i fyw.

Richard E. Huws

* Rwy'n ddiolchgar iawn i Mr Peter Jones, Amgueddfa Llangollen, am ei gymorth caredig gyda rhai manylion. Diolch hefyd i Owain Hammonds am wella ansawdd llun Thompson.



CFfl Talybont a'r Cylch

Cinio Blynnyddol 2017 CFfl Tal-y-bont a'r Cylch yng Ngwesty'r Marine

Blwyddyn newydd dda i bawb gan y CFfl! Daeth y flwyddyn i ben ag eleni eto bu'r clwb wrthi'n brysur yn canu carolau i godi arian tuag at dair elusen: Cynllun Prynu Bricsen gyda CFfl Cymru, Beiciau Gwaed Cymru a Ward Iorwerth ym Mronglais. Llwyddwyd i godi dros £1600 sy'n swm anhygoel. Diolch yn fawr iawn i bawb fuodd yn canu ac yn rhoi tuag at achosion da.

Nawr ymlaen i'r flwyddyn newydd ac fe aeth llond car a fan llawn pedolau lawr i Lambed i gystadleuaeth cwis y Sir. Braf cofnodi ein bod fel clwb yn cefnogi gweithgareddau amrywiol y sir, ond chredwch neu beidio daeth y clwb yn 5ed ar y cwis cyffredinol. Noson hwylus iawn a llawer o hwyl yn darganfod arbenigedd yr aelodau.

Yn ystod Mis Ionawr aeth 3 tim o'r clwb i Gampws Felinfach i gystadlu yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg y Sir. Roedd dau dim darllen o dan 14 yn trafod y nofel 'Diffodd y Sêr', Teleri Pwllglas, Bedwyr Tanyralt ac Elen Llewelyn yn un tim. Gwen Down, Cadi Williams ac Elain Tanat Morgan yn y tim arall. Fe wnaeth y 6 gystadlu'n gryf iawn a llwyddodd Gwen i gael 2 wobwr sef:

3ydd Cadeirydd gorau o dan 14

2il siaradwr gorau o dan 14

ac fe fydd Gwen yn mynd ymlaen fel rhan o dim Ceredigion i gystadlu ar lefel Cymru ym Mis Ebrill felly Pob lwc i ti Gwen.

Yng Nghystadleuaeth

Siarad Cyhoeddus o dan 16 fe ddaeth y tim o Beca Williams, Glesni Pwllglas ac Eleri Ffosygrafel yn 5ed gyda 'mond 3 phwynt tu ôl i'r safle cyntaf, felly cystadleuaeth o safon uchel ac agos iawn ferched! Cafodd Eleri wobwr am fod y drydedd diolchyd gorau a Glesni yr ail siaradwr gorau. Llongyfarchiadau mawr i chi, ond byddai hyn ddim yn bosib heb hyfforddwraig dda tu ôl iddyn nhw. Diolch yn fawr iawn



Alaw 'bingo' Aur wrth y rhifau



Rhian Glanrafon gyda'r tim Siarad Cyhoeddus: Elain Gwen a Cadi

i Rhian Glanrafon am gamu mewn a hyfforddi'r merched.

Rydym erbyn hyn wedi dechrau ar ymarferion yr hanner awr o adloniant, a rwy'n siwr bod pawb yn edrych ymlaen amdani. Byddwn yn cystadlu'n theatr Felinfach ar y 22ain o Chwefror gyda Trisant a Mydroilyn yn perfformio ar y 'run noson. Os ydych eisiau tocynnau gadwch Steffan Nutting wybod ar 07949377877. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at gael crysiau clwb newydd, eto rhwch wybod i Steffan os ydych eisiau archebu un.

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ

helen.iwan@btinternet.com

01970 832760



Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

BUSNESA



Ehangu, ehangu, ehangu – dyna arwyddair Huw a Susan Lewis perchnogion a chyfarwyddwyr Cwmni Teiars Huw Lewis sy bellach wedi bod yn y busnes teiars ers yn agos i ddeugain mlynedd. Daw Huw o Dalerddig a Susan o Nant Gwynant ac fe gyfarfu'r ddau pan aeth Huw i weithio fel rheolwr yn nhafarn Tanronnen Beddgelert. Cychwyn gyrfafelly mewn byd pur wahanol ond fel y pwysleisia Huw rhaid plesio'r cwsmer os yw hwnnw'n codi peint neu'n prynu teiar.

Symud i Dre'r Ddol yn 1978, Susan yn rhedeg y siop a'r caffi a Huw o'r cwt yn y cefn yn cychwyn ar y busnes o werthu teiars. Mae'n cydnabod nad oedd yn gwybod rhyw lawer am y maes ond roedd ganddo un fantais sylweddol, sef ei ddiddordeb ysol mewn ralïo. Arweiniodd hynny at werthu teiars arbenigol i geir rali ac o dipyn i beth tyfodd y fusnes. Gwelodd hefyd fod y fasnach deiers yn nwylo cadwyni a gweld ar yr pryd y cyfle i fod yn fwy cystadleuol ac yn agosach at y cwsmer.

Yn 2001 symudodd y cwmni i safle yng Nghoedlan y Parc Aberystwyth. Er fod y gweithdy'n fwy a'r safle mewn man hwylus yn y dre, i fi roedd un agwedd ryfedd yn y symud. Drws nesaf bron roedd cangen newydd un o brif gwmnïau teiars Prydain – onid oedd hyn yn creu problem o gystadleuydd ar y stepen drws? Mae Huw yn anghytuno. Yr arfer oedd i gwsmer fynd at y cystadleuydd, holi am y pris a throi ar ei sawdl at y cwmni lleol. Bob tro bron gallai gynnig pris gwell ac felly roedd agosatrwydd y cymydog yn fantais yn hytrach nag anfantais. Wedi'r cyfan chwilio teiars oedd y cwsmer a chwilio'n ddigon naturiol am y fargen orau.

Y cam nesaf yn 2007 oedd prynu uned ar Stad Glanrafon. Paratowyd y lle i safon uchel i gynnig gwasanaeth MOT, gan gynnwys MOT i feiciau modur (rhywbeth digon anarferol mae'n debyg). Ehangu eto a sicrhau nad oedd yr wyau i gyd yn yr un fasged. Ar draws y ffordd i'r uned roedd cangen o ATS, cadwyn teiars arall, ym mherchnogaeth cwmni Michelin. Clywodd Huw fod y busnes ar werth (ynghyd â changen ym Machynlleth) ac fe neidiodd at y cyfle. Tipyn o fenter - ond ers 2009 dyma bencadlys y cwmni. Ddwyllydd wedyn prynwyd y safle yn Llanbedd. O ganlyniad mae'r cwmni yn gwasanaethu cannoedd o gwsmeriaid dros ardal sy'n ymestyn o Genarth yn y gorllewin i Borthmadog yn y gogledd.

Yn wahanol i'r cadwyni mae Teiars Huw Lewis yn gwmni teuluol. Mae Aled y mab hyna yn gyfrifol am rediad dydd i ddydd gweithgareddau Glanrafon a'r llall Dylan yn gyfrifol am y fusnes yn Llanbedd. Anhawster cyson wrth ehangu yw prinder amser i roi sylw manwl i bob agwedd o'r fusnes ond i raddau helaeth mae'r cysylltiad teuluol yn goresgyn hyn. Cyflogir deg ar hugain rhwng y tri safle a Susan sy benna' gyfrifol am y gwaith papur – tasg

gynyddol gymhleth o ystyried gofynion treth incwm ac yswiriant cenedlaethol.

Os mai'r arwyddair oedd ehangu, y nod dros y blynnyddoedd oedd delio'n deg gyda'r cwsmer. Mae cwsmer bodlon yn gwsmer sy'n dychwelyd gan sefydlu sail gadarn o brynwyr. Er fod cystadlu'n fasnachol â'r cadwyni'n galed mae modd i anelu at gynnig gwasanaeth da. O ran prisio y newid mwyaf yw effaith y we ac mae Huw a Susan wedi gweithio'n galed gydag eraill i greu gwefan gref ac effeithiol. Gwefan gwbl ddwyieithog gyda Chymraeg hawdd i'w ddeall sy ar yr un pryd yn dangos meistrolaeth o dermau technegol – aliniad am *alignment* er enghraifft. O'r dyddiau cynnar rhoddwyd sylw cyfartal i'r Gymraeg, o'r arwyddion i logos y dillad gwaith. Un ffaith sy'n siomi Susan yw prinder y Cymry Cymraeg sy'n cynnig am swyddi – y gweithiwr wedi'r cyfan yw pwynt cyswllt cyntaf pob cwsmer. Newidiadau eraill? Wel, ydych chi wedi edrych ym mŵt eich car yn ddiweddar? Mwy na thebyg yr hyn welwch chi yw teiar gyrru adre' neu yn waeth fyth peiriant i drwsio'r twll i hwyluso (??) cyrraedd y garej agosaf. Dyna'r arfer bellach ac mewn ymateb i'r newid mae'r cwmni yn cynnig gwasanaeth argyfwng ochr-y-ffordd dros ardal sy'n ymestyn o'r Bermo i Llandysul. Agwedd arall o fynd at y cwsmer yw gosod teiars amaethyddol. Mae Huw yn ymwybodol y gall amser fod yn allweddol i'r diwydiant amaethyddol a bod rhaid cynnig gwasanaeth cyflawn ar glos y fferm ei hun.

Ar ôl blynnyddoedd yn y gwaith mae Huw a Susan yn teimlo fod yr adeg i ymddeol yn nesáu. Mae dyletswyddau taid a nain yn galw ar enedigaeth ŵyr, Elis William Howell i'w merch Caryl. Hefyd mae'r ddau yn gweld ei bod yn amser i ystyried trosglwyddo'r awenau i'r meibion. Ond, ond, wrth adael y safle'n Llanbadarn gwelais Aled a holi pwy oedd y bos. Gwenodd a dweud "mae'n dibynnu pwy sy'n gofyn a phwy sy'n ateb!"

GIE

Cyngor Cymuned Ysgubor y Coed **Ysgubor y Coed Community Council**

Clerc/Clerk: Dr Tamsin Cathan Davies, 18 Heol Pentreherdyn, Machynlleth, SY20 8DN
Ffôn/Tel: 01654 700626

CLERC I'R CYNGOR CYMUNED

Dymuna Cyngor Cymuned Ysgubor y Coed benodi Clerc newydd i ddechrau ar y gwaith ym mis Mai. Swydd ran-amser yw hon (2 awr yr wythnos). Os oes diddordeb gennych gellir cael rhagor o fanylion am delerau a dyletswyddau'r swydd gan y Clerc presennol, Tamsin Cathan Davies ar clerc@ysguborycommunitycouncil.co.uk.

Dyletswyddau:

- Paratoi agenda a chofnodion ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor a gynhelir bob yn ail fis, a chyfarfodydd cynllunio/arbennig achlysurol
- Trefnu cyfarfodydd cyhoeddus achlysurol
- Gweithredu ar benderfyniadau a wneir mewn cyfarfodydd y Cyngor
- Ateb ymholiadau
- Cynghori'r Cyngor ar faterion cyfreithiol a gweithredol
- Cynnal a diweddarau gwefan ddwyieithog y Cyngor
- Cyfieithu dogfennau/hysbysebion syml (Cymraeg i Saesneg/Saesneg i Gymraeg)
- Paratoi cyllideb y Cyngor
- Paratoi asesiad risg y Cyngor
- Cadw cyfrifon y Cyngor
- Cydlynu archwiliadau mewnol ac allanol y Cyngor
- Trefnu taliadau ar ran y Cyngor
- Rhedeg cyflogres y Cyngor, gan gynnwys cyflwyniadau misol TWE i HMRC

Cyflog: £909 pro rata

Ceisiadau drwy CV gyda llythyr at Gadeirydd y Cyngor Cymuned: Dr Harry Toland, Morawel, Eglwys-Fach, Machynlleth, SY20 8SX, neu hht@aber.ac.uk erbyn 31 Mawrth 2017

DIWEDD CYFNOD



Ar fore'r Sul y nawfed ar hugain o Ionawr canwyd cloch eglwys Dewi Sant Tal-y-bont am y tro olaf a'i galwad yn cloi cant tri deg wyth o flynyddoedd o addoli eglwysig yn y pentref. Gyda'r rhai oedd yn mynychu'r oedfeuron yn heneiddio ac yn gostwng roedd y penderfyniad i gau yn anorodol yn ôl y Parch Peter Owen Jones yr offeiriad gyda gofal y plwyf.

Addoldy cyntaf yr eglwyswyr oedd Yr Eglwys Sinc a godwyd yn 1879 ar lecyn ar yr hewl gefn. Esgob Tyddewi ar y pryd oedd William Basil Jones, perchennog stad y Gwynfryn yn Llangynfelyn ac fe ddisgrifiwyd yr adeilad fel *a certain iron building erected for religious worship in Talybont*. Adeiladwyd yr eglwys bresennol, yr eglwys garreg yn 1909 ar gost o £1600, dros £130,000 yn arian heddiw. Codwyd rhan helaeth o'r arian drwy ymdrechion gwirfoddol ac fe roddwyd y safle yn Pen-Lon gan Mrs Eleanor Anwyl, Plas Penbompren. Gallai'r adeilad gynnig lle i 185 o addolwyr ac mae iddo nifer rinweddau pensaernïol gan gynnwys y ffenest liw ddwyreiniol sy'n dangos Crist ar y Groes gyda'r geiriau Myfi yw y Bugail Da.

Roedd Eglwys Dewi Sant yn llawn ar y bore olaf ond dylid cofio fod hwn yn achlysur i dair eglwys y plwyf sef Llangorwen, Llandre a Thal-y-bont. Serch hynny daeth nifer o bentrefwyr a chyn bentrefwyr i'r oedfa ac yn eu plith roedd yn braf gweld teulu Mr Gwilym Roberts un a fu'n eithriadol o drwm i'r achos dros gyfnod maith. Roedd y gwasanaeth yng ngofal yr Archddiacon Dr William Strange, y Parch Peter Jones a'r Darllenwr Lleyg David Poole.

Y dewis nawr i'r plwyfolion yw teithio i addoli yn eglwys Llandre ond roedd Peter Jones hefyd yn obeithiol y gellid cynnal gwasanaethau mewn mannau eraill yn y pentref megis gwaelod y neuadd. Yn ei eiriau ef, clwstwr o bobl yw eglwys nid brics a mortar. Fodd bynnag fe fydd yr adeilad ar werth a rhaid aros i weld beth fydd y cam nesaf i Eglwys Dewi Sant Tal-y-bont.

Mae cyfres Priodas Pum Mil yn chwilio am gyplau!

Yn dilyn llwyddiant y gyfres ddiwethaf mae criw Priodas Pum Mil yn chwilio am fwy o gyplau sy'n fodlon i ffrindiau a theulu drefnu eu priodas, a hynny am £5000!

Croeso i bawb sydd â'u bryd ar briodi i gysylltu, o'r traddodiadol i'r anarferol!

Anfonwch eich manylion ac ychydig o'ch hanes at beka.evans@boomcymru.co.uk

boom cymru S4C

argraffu da am bris da



yLolfa

holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com

BWYD DA ...
CWMNI DA ...

yBlac
TALYBONT

BWYTY A BAR

CINO 12.00 - 2.30 SWPER NOS 6.00 - 9.00
CINO SUL 12.00 - 3.00

AM FWY O FANYLION, BWYDLENNI A CHYNGION
EWCH I'N GWEFAN - yblac.co.uk

Gwelwch chi'n fuan... Cofion Siân, Catrin a'r tîm

01970 832 555 croeso@yblac.co.uk

Y Gair Olaf



Nid yw ysgrifennu a rhoi pensil i bapur yn rhywbeth sydd yn dod yn naturiol i fi o gymharu â nifer ohonoch, rwy'n un gwell ar lafar. O ddydd i ddydd rhyw nodiadau ar y mwyafrif, ar sgrap o bapur dwi'n ei wneud, rhifau tags gwartheg neu 'list' o bethau sydd angen o'r fet. Felly beth all rhywun fel fi rannu efo chi? Wel yr hyn rwy'n ei wneud a'i weld bob dydd. Godro!!

Mae llaeth yn un o'r pethau hynny mae pobol yn cymryd yn ganiataol, a pham ddim, gydag 1.5 biliwn o literi yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru bob blwyddyn. Yr hyn sy'n fy synnu i yw cyn lleied mae pobol yn ei wybod am y cynnyrch, a'r manteision diddorol o'i yfed. 3.6% yw canran braster llaeth, canran mae nifer o bobol yn ystyried i fod yn fwy. A'i oherwydd bod llaeth hanner sgim mor boblogaidd a bod llaeth naturiol yn cael ei frandio fel 'full fat'??

Gyda'r nos wrth gael swper ma' sawl un yn mwynhau paned o de, neu glased o win, wel peint o laeth sydd well gyda fi.

Un anhawster dwi byth yn ei gael yw mynd i gysgu, mae'n fwy o broblem y pen arall, codi. Mae llaeth yn cynnwys lefel uchel o Melatonin. Hormon naturiol yw Melatonin sy'n cael ei gynhyrchu yn ein cyrff fin nos i baratoi ein hunan i fynd i gysgu. Mae Melatonin yn rheoli cylchdro o gysgu a deffro. Felly tro nesa fyddwch chi'n cael anhawster rhoi eich pen i lawr i gysgu, a chael dipyn o 'beauty sleep' yfych glased o laeth.

Mae'n 4:30 y prynhawn, well fi fynd, mae'n amser godro.

Geraint Jenkins, Cerrigcaranau

Chwaraeon

Pêl-droed



Tal-y-bont yn ymosod ar gôl Tregaron ond yn ofer y tro hwn.

Er bod gobeithion Tal-y-bont o ennill adran gyntaf Cynghair Cambrian Tyres Aberystwyth a'r cylch wedi pylu erbyn hyn, mae'r tîm yn dal i obeithio gorffen y tymor gyda chwpan neu ddwy. Ar 21 Ionawr, mewn gêm glos yn ail rownd Cwpan y Cynghair, llwyddwyd i guro Tregaron o 3-1 wedi amser ychwanegol. Yn anffodus gorffennodd Tal-y-bont y gêm gyda naw dyn yn unig wedi i ddau chwaraewr gael eu hanfon o'r maes.

Ar Sadwrn cyntaf Chwefror, yn rownd gyntaf Tlws Coffa Len & Julia Newman, rhoddwyd crasfa i Borth o bum gôl i ddim ar Gae'r Odyn Galch.

THE VALE OF RHEIDOL RAILWAY
RHEILFFORDD CWM RHEIDOL

WYTHNOS GOSTYNGIAD LLEOL
11EG I'R 26AIN O CHWEFOR 2017

OEDOLION A MYFYRWYR £11
PLANT (3-15 OED) £6

MAE RHEILFFORDD CWM RHEIDOL YN CYNNIG TEITHIAU RHATCH I BOBL LEOL O ARDALOEDD COD POST SA, SY, LD YN YSTOD HANNER TYMOR MIS CHWEFOR

GWIBDEITHIAU DYDDIOL
O Aberystwyth: 10:30 yb & 2 yp / O Bontarfynach: 12:30 yp

ABERYSTWYTH I BONTARFYNACH

www.rheidolrailway.co.uk - 01970 625 819
Park Avenue, Aberystwyth, SY23 1PG - Charity No 1076037

Llewod Lleol

Gyda'i bod hi'n flwyddyn pan fydd Y Llewod yn teithio i herio'r Crysau Duon ar domen ei hunain, gwerth nodi fod yna llewod lleol yn rhedeg yn wyllt a gosod eu marc ar gaeau rygbi Gorllewin a De Cymru!

Llew yw emblem Clwb Rygbi Aberystwyth ac mae'r bechgyn, sy'n cynnwys Arwel Lloyd, Rhodri Richards a Paul Stubbs, sydd â chysylltiadau ag ardal *Papur Pawb*, yn chwarae gydag angerdd ac ymroddiad mewn ysbryd arwyddair y clwb sef '*Â chywilydd ni ddychwelaf*'!

Ar ôl ennill dyrchafiad fel pencampwyr o Gynghrair Cenedlaethol 2 y Gorllewin ar ddiwedd tymor 2015/16 mae Aber wedi cael dechreuad campus i'r tymor hwn. Gydag ein bod hanner ffordd drwy'r tymor erbyn hyn mae'r tîm yn y trydydd safle yng nghynghrair 1 y Gorllewin ac yn cystadlu ar y lefel uchaf yn hanes y clwb.

Erbyn hyn yn ogystal â gemau yn cael eu gohirio oherwydd sgil effeithiau tywydd garw mae cyfres gemau rhyngwladol yr Hydref yn ogystal â Phencampwriaeth y 6 Gwlad yn golygu fod yna gryn ddechrau a darhod o ran patrymau'r gemau gyda chynnodau sylweddol heb gemau yn effeithio llif y tymor. Ta waeth am hyn mae'r bechgyn yn parhau i gadw momentwm gan berfformio'n rymus a chyson gartref ac i ffwrdd.

Mae chwaraewyr a chefnogwyr Aber yn hen gyfarwydd, a derbyn, fod teithio yn rhan anorfod o chwarae rygbi o fewn strwythur y cynghreiriau cenedlaethol ac mae'r '*sat navs*' eisoes wedi'i anelu at Gorseinon, Felinfoel, Llangennech, Crymch, Cydweli a Phenclawdd y tymor yma'n barod!

Mae llwyddiant mae'r tîm 1af wedi'i flasgu dros y tymhorau diweddar yn deillio o feithrinfa lewyrchus iawn, gyda thimau iau ac ieuencid yn annog a rhoi cyfleoedd gwyb i ddatblygu doniau, teithio, cadw'n heini a gwneud ffrindiau hir oes. Mae'n rhaid cymeradwyo'r gwirfoddolwyr lawer sy'n rhoi eu hamser ag egni diflino er mwyn cadw pob peth i fynd sy'n ymestyn o'r hyfforddwyr i'r rhai sy'n paratoi a gweini'r bwyd ar ôl gemau i'r rhai sy'n ymwneud â'r agweddau gweinyddol a chymdeithasol.

Gobeithio bydd llwyddiant y Clwb ar sawl lefel yn parhau a phwy a wyr efallai fydd yna lew neu ddau o Aber yn hedfan tua hemisffer y de rhywbryd yn y dyfodol!

Gerwyn Jones



Mae gwasanaeth *Papur Pawb Sain* wedi bod ar gael ers tro fel cymorth i'r rhai sydd â golwg diffygiol neu ddallineb. Dros y blynyddoedd bu aelodau Merched y Wawr yn recordio'r papur ac yn y llun gwelir dwy aelod, Aileen Williams a Betty Jenkins yn cwblhau'r dasg am y tro olaf yng nghwmni Iolo ap Gwynn y '*technegydd*'. Yn y dyfodol fe fydd y fersiwn sain yn gynwysedig yng ngwefan newydd y papur.